**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**13 Rhagfyr 2017**

# ADRODDIAD GWYBODAETH GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# GWOBR CYNLLUNIO SEFYDLIAD CYNLLUNIO TREFOL BRENHINOL (RTPI) CYMRU 2017

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu'r Pwyllgor Cynllunio o'r newyddion bod prosiect Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl wedi ennill Gwobr fawreddog Cynllunio Cymru 2017, yn swper blynyddol RTPI Cymru yng Nghaerdydd 17 Tachwedd 2017.

## 2. CEFNDIR.

2.1. Cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych, gan weithio mewn partneriaeth ag AHR Architects, Willmott Dixon, A&B Engineering, Ramboll ac SRL, y prosiect Ysgol Uwchradd y Rhyl newydd i Wobrau Cynllunio Cymru ar gyfer 2017.

2.2. Daeth y prosiect â nifer o gydweithwyr ynghyd yn y Cyngor yn ystod y cam cysyniad cychwynnol, i'r ymgynghoriad a'r cam cwblhau. Gweithiodd Swyddogion o fewn y Gwasanaeth Addysg, Eiddo a Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda'r Pennaeth a staff Ysgol Uwchradd y Rhyl, a'r holl bartneriaid a grybwyllwyd ynghynt, er mwyn cyflawni'r ysgol newydd 21ain ganrif.

2.3. Roedd prosiect Ysgol Uwchradd y Rhyl yn erbyn cystadleuwyr anodd o bob cwr o Gymru i ennill y wobr, ond daethant i'r brig yn y pen draw. Cafodd y beirniaid argraff arbennig o dda o ganlyniad i "*natur a graddau'r broses ymgynghori a'i chanlyniadau o ran ymgysylltu â chymuned a oedd yn hanesyddol wedi teimlo ar y cyrion ac wedi'i hanwybyddu."* Aethant ymlaen i bwysleisio bod y "*broses ymgynghori hon wedi sicrhau perchnogaeth gymunedol o'r adeilad, ac ynghyd â'i dyluniad a gafodd ystyriaeth drwyadl, wedi cyflawni ei hamcan o ddarparu man sy'n ysbrydoli, sy'n atgyfnerthu'r neges allweddol bod dysgu'n gwella hyder ac yn helpu i drawsnewid bywydau."*

2.4. Cyflwynodd y swyddogion gais cynllunio gwreiddiol Ysgol Uwchradd y Rhyl gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn ôl yn Ebrill 2014, lle cafodd gefnogaeth unfryd.

2.5. Mae modd gweld rhagor o fanylion o gyflwyniad y prosiect yn llyfryn y gwobrau sy'n amgaeedig yn y ddolen gyswllt isod.

http://www.rtpi.org.uk/media/2603008/dinner_brochure_awards_2017_web.pdf

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1. Bod Aelodau'n nodi'r adroddiad gwybodaeth.

**EMLYN JONES PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**